



Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Dogfen Negeseuon Allweddol

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Amcanion y negeseuon:	3
3.	Negeseuon allweddol	5
	Cyfoeth Naturiol Cymru	5
	Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.....	5
4.	Negeseuon sy'n benodol i bwnc	6
	Bioddiogelwch a Llwybrau Cyflwyno	6
	Cofnodi INNS	7
	Garddio / Garddwriaeth.....	8
	Defnyddwyr dŵr – gan gynnwys genweirwyr, cychwyr, padlwyr a nofwyr.....	8
	Perchnogion anifeiliaid anwes	9
	Perchenogion tir a chyrrf rheoli tir e,e, gwarchodfeydd natur	11
	Defnyddwyr dŵr y môr	12
5.	Dolenni defnyddiol.....	13
	Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.....	13
	Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru	13
	Ymgyrch ‘Ymledwyr Ecosystem’	14
	Deddfwriaeth.....	14
	Cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau	15
	Cacynen Asia.....	15
	Clymog Japan. Jac y Neidiwr a'r Efwr Enfawr.....	15
	Porth Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) yng Nghymru.....	16
	Plâu a chlefydau.....	16
6.	Cyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol	18
7.	Adnoddau.....	19
	Deunydd Edrych, Golchi, Sychu (Check Clean Dry)	19
	Deunydd Mynd at Wraidd y Mater (Be Plant Wise)	21

1. Cyflwyniad

Ffurfiwyd Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynol (INNS) Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) i helpu i bennu blaenorriaethau o ran rhywogaethau estron goresgynol a datrys problemau a oedd yn berthnasol i Gymru. Mae'r grŵp yn gweithredu fel ffynhonnell arbenigol ym maes rhywogaethau estron goresgynol yng Nghymru ac mae'n cael ei ystyried fel Gweithgor Cymru o dan Strategaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. Mae ei raglen waith yn canolbwytio ar weithredu ar amcanion pum neges allweddol a ddisgrifir isod. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r amcanion hynny ac yn cynnig helpu aelodau Grŵp INNS y PBC i fod yn gyson yn eu negeseuon wrth gyfathrebu â chynulleidfaedd allanol.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion aelodaeth y grŵp, gweler:

[Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Grwp Rhywogaethau Estron Goresysgynol](#)

Amcan y ddogfen	Darparu negeseuon cyson a syml i aelodau Grŵp INNS PBC i'w cyfleu i gynulleidfa eang.
Amcan y Negeseuon	Codi ymwybyddiaeth am effeithiau a bygythiadau INNS Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bioddiogelwch Hyrwyddo ffyrdd i'r cyhoedd adnabod a chofnodi INNS Helpu pobl i newid ymddygiad a deall sut y gall gweithredoedd yr unigolyn gael effaith Annog gweithredu i reoli ac atal INNS rhag lledaenu lle bo gofyn.
Cynulleidfa	Sefydliadau'r sector cyhoeddus Sefydliadau'r sector preifat Y byd academaidd Garddio/garddwriaeth Defnyddwyr dŵr croyw – gan gynnwys defnyddwyr masnachol a hamdden (genweirwyr, teithwyr cychod, canŵ-wyr, plymwyr) Defnyddwyr morol – gan gynnwys defnyddwyr masnachol (marinâu, porthladdoedd, harbwr,. pysgotwyr) a defnyddwyr hamdden (genweirwyr, teithwyr cychod, canŵ-wyr, plymwyr) Perchnogion anifeiliaid anwes – yn benodol, perchnogion anifeiliaid anwes eggsotig, adar a physgod Cyrff cadwraeth anlywodraethol Y diwydiant adeiladu a'r sector datblygu Cymdeithasau perchnogion tir Y cyhoedd
Amseru	Yn parhau
Fersiwn	Fersiwn 2 (Awst 2024)

2. Amcanion y negeseuon:

Amcan 1 – Codi ymwybyddiaeth am effeithiau a bygythiadau INNS

- Hyrwyddo Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol.
- Codi ymwybyddiaeth am Rywogaethau Estron Goresgynnol sy'n peri Pryder i'r Undeb a rhywogaethau INNS blaenoriaethol ar gyfer Cymru.
- Hyrwyddo gwefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (GB N NSS) fel canolbwyt ar gyfer gwybodaeth am INNS ym Mhrydain.
- Hyrwyddo tudalennau gwe INNS PBC fel canolbwyt ar gyfer gwybodaeth am INNS yng Nghymru.
- Hyrwyddo ffynonellau cofnodion am wasgariad INNS (h.y. Atlas NBN Porth INNS Cymru, Aderyn, BSBI)
- Hyrwyddo presenoldeb aelodau Grŵp INNS PBC ar Fforwm blynnyddol Rhanddeiliaid Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.
- Annog grwpiau gweithredu lleol i rannu gwybodaeth ac arfer da.
- Hyrwyddo cylchlythyr Grŵp INNS PBC / WaREN.

Amcan 2 – Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bioddiogelwch

Hyrwyddo negeseuon ymgyrch bioddiogelwch ar gyfer 'Edrych, Golchi, Sychu' (Check Clean Dry) a 'Mynd at Wraidd y Mater' (Be Plant Wise) a hyrwyddo'r Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol yng Nghymru.

Hyrwyddo'r modiwl e-ddysgu bioddiogelwch ar wefan GB N NSS.

Rhannu arferion gorau ac adnoddau bioddiogelwch.

Amcan 3 – Hyrwyddo ffyrdd i'r cyhoedd adnabod a chofnodi INNS

Hyrwyddo hysbysiadau a chofnodion rhywogaethau a thaflenni adnabod GB N NSS.

Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cofnodi rhywogaethau sy'n fygythiad

Hyrwyddo cadw cofnodion ar iRecord (ar-lein neu ap) neu INNS Mapper o rywogaethau sy'n cael eu gweld.

Hyrwyddo gweithredoedd ac ymdrechion wedi'u cydgysylltu i reoli INNS ar Fapiwr INNS.

Mae ap a gwefan Mapiwr INNS ar gael yn Saesneg (INNS Mapper) ac mae'r data a gofnodir ar Fapiwr INNS ar gael i bawb ei weld a'i ddefnyddio.

Amcan 4 – Helpu pobl i newid eu hymddygiad a deall sut y gall gweithredoedd yr unigolyn gael effaith e.e. tipio gwastraff o'r ardd yn anghyfreithlon, rhyddhau anifeiliaid anwes digroeso

- Hyrwyddo'r negeseuon allweddol cytunedig er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o broblemau sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol.
- Annog camau gweithredu codi ymwybyddiaeth i gael eu cysylltu â gwahoddiad i addo cymryd camau ymarferol ac atebion i'r problemau a achosir gan INNS.
- Sicrhau bod digwyddiadau i drafod INNS yn meithrin perthynas rhwng pobl a lleoedd drwy fod yn ddiddorol ac yn rhngweithiol, a chynnwys arwyddbostio i'r camau nesaf a chyfleoedd i ddysgu mwy.
- Annog cyfleoedd i ffurfio grwpiau i fonitro, datblygu a chynnal momentwm.

Amcan 5 – Annog gweithredu i reoli ac atal INNS rhag lledaenu lle bo gofyn

- Hyrwyddo digwyddiadau lleol sy'n digwydd yn ystod Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol.
- Annog grwpiau gweithredu lleol i rannu gwybodaeth ac arfer da. Mae [Pecyn Rhywogaethau Goresgynnol WaREN](#) yn adnodd defnyddiol y gall LAGS ei ddefnyddio. Mae'n cynnwys adrannau ar adnabod a riportio, rheoli, cynllunio prosiectau, bioddiogelwch a chodi ymwybyddiaeth.

3. Negeseuon allweddol

Beth yw rhywogaeth estron oresgynol?

Mae'r negeseuon allweddol canlynol wedi'u datblygu gan aelodau Grŵp INNS
PBC: RGB(169,174,42)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cyfres o negeseuon allweddol ar gyfer yr holl randdeiliaid:

- Planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau yw rhywogaethau estron goesgynol (INNS) sydd wedi'u cyflwyno'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan bobl i leoedd y tu allan i'w parthau naturiol, lle maent wedi ymgartrefu a gwasgaru ac yn effeithio ar ecosystemau a rhywogaethau lleol. Gall yr effeithiau hyn fod yn gostus i'r economi a gallant hyd yn oed effeithio ar eich iechyd a'ch ffordd o fyw.
- INNS yw un o'r pum prif fygwyd i fioamrywiaeth ledled y byd.
- Gall INNS effeithio ar gydnerthedd ecosystemau mewn llawer ffordd gan gynnwys trwy greu cystadleuaeth, ysglyfaethu, effaith amgylcheddol, effeithiau genynnol/hybrideddio a thrwy ledaenu clefydau a newid strwythur ecosystemau.
- Gall INNS effeithio ar les pobl trwy effeithio ar weithgareddau hamdden.
- Gall presenoldeb INNS waethyg effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy er enghraifft gynyddu'r perygl o lifogydd.
- Gall INNS effeithio ar iechyd pobl trwy achosi brechau, adweithiau alergol difridol a chynyddu clefyd y gwair.
- Mae INNS yn cael effaith arwyddocaol ar ffyniant Cymru. Amcangyfrifir bod INNS yn costio o leiaf £343 miliwn y flwyddyn i Gymru, gan effeithio'n bennaf ar weithgareddau amaethyddol, coedwigol a garddwriaethol, ond gallant hefyd effeithio ar ddyframaethu, trafnidiaeth, cyfleustodau ac adeiladu.

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr

Mae'r negeseuon allweddol hyn yn seiliedig ar negeseuon allweddol Gweithgor Cyfathrebu a Chyfryngau Ysgrifenyddiaeth Prydain Fawr.

- Mae dros 2,000 o wahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion wedi'u cyflwyno i Brydain gan bobl. Rhywogaethau estron yw'n henw arnynt.
- Mae'r rhan fwyaf yn ddiniwed ond mae cyfran fach (10-15%) yn troi'n oresgynol.

- Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn niweidio ein hamgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'n ffordd o fyw
- Maen nhw'n bygwth ein planhigion, ein hanifeiliaid a'n cynefinoedd brodorol
- Maen nhw'n costio bron £2 biliwn y flwyddyn i economi Prydain
- Maen nhw'n gallu bygwth ein hiechyd

4. Negeseuon sy'n benodol i bwnc

Yn ogystal â'r negeseuon allweddol uchod, mae cyfres o negeseuon sy'n benodol i bwnc wedi'i datblygu hefyd.

Bioddiogelwch a Llwybrau Cyflwyno

Mae bioddiogelwch yn ymwneud â lleihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol (ac organebau niweidiol eraill megis plâu ac afiechydon).

Mae dilyn arferion bioddiogelwch da yn lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Mae bioddiogelwch da wastad yn bwysig. Gall rhywogaethau estron goresgynnol fodoli ar unrhyw safle, a gellir eu lledaenu drwy ddillad, cyfarpar, cerbydau a pheiriannau halogedig.

Byddwch yn gyfrifol – cofiwch gyrraedd safle gyda chyfarpar glân.

Os oes cyfleusterau ar gael ar y safle i lanhau esgidiau, cyfarpar a cherbydau gofalwch eu defnyddio cyn ichi adael.

Rhwystwrwch bethau rhag lledaenu. Peidiwch byth â rhyddhau, symud neu ollwng rhywogaethau estron goresgynnol i'r amgylchedd:

- Mae'n anghyfreithlon a gallich gael eich erlyn.
- Gall INNS ledaenu afiechyd
- Maen nhw'n fygythiad i'ch chwaraeon neu eich hobî
- Gallant fygwth ein planhigion, anifeiliaid ac ecosystemau brodorol
- Os chi sy'n gyfrifol am gael gwared ohonynt gall hynny fod yn ddrud iawn.

Pan fyddwch yn ymweld ag afonydd, llynnoedd a chyrff dŵr eraill cofiwch [Edrych](#), [Golchi](#), [Sychu](#) bob amser: Edrych – ar bob dilledyn a chyfarpar; Golchi – dillad a chyfarpar ar y safle, gyda dŵr poeth os gallwch a; Sychu – sychwch gyfarpar a dillad yn llwyr

Mae modiwl e-ddysgu bioddiogelwch sy'n seiliedig ar *Edrych*, *Golchi*, *Sychu* ar gael am ddim yn Gymraeg a Saesneg drwy [safle ddysgu GBNSS](#).

Ceir rhagor o wybodaeth trwy fynd ar wefan GBNSS:

Biosecurity and Pathways

Marine biosecurity » NNSS (nonnativespecies.org)

Mae Prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) wedi datblygu Pecyn Cymorth Rhywogaethau Goresgynnol sy'n cynnwys cyngor ar fioddiogelwch ac arferion gorau. Mae saith darn o animeiddio cysylltiedig (1-2 munud):

1. Pecyn Adnoddau Rhywogaethau Ymledol: Cefnogi Gweithredu gan Wifoddolwyr yng Nghymru ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))
2. Sut i ddefnyddio Ap Mapiwr INNS ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))
3. Sut i reoli Jac y Neidiwr! ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))
4. Sut i arwain diwrnod rheoli ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))
5. Sut i atal lledaeniad rhywogaethau ymledol ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))
6. Siarter Diogelu Natur Nawr ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#)) – gweler amcan 10
7. Beth yw rhywogaeth ymledol ([Cymraeg](#) a [Saesneg](#))

Llwybrau Cyflwyno yw'r ffyrrd y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu cyflwyno neu eu lledaenu. Mae [Cynlluniau Gweithredu ar Lwybrau Cyflwyno](#) wedi'u paratoi i roi cyngor i unigolion a mudiadau ar beth sydd angen ei wneud i leihau'r risg. Mae Cynlluniau Gweithredu wedi'u llunio ar:

- Genweirio
- Garddwriaeth
- Cychod hamdden
- Sŵau
- Anifeiliaid Anwes Egsotig (wrthi'n cael ei baratoi)

Cofnodi INNS

Gall pawb ddarparu cofnodion biolegol defnyddiol am rywogaethau estron trwy ddefnyddio gwfannau cofnodi ar-lein ac apiau ffonau clyfar. Mae hi nawr yn haws gwneud hyn nag erioed.

Mae cofnodi rhywogaethau estron, gan gynnwys planhigion sy'n cael eu gweld yn aml, yn ein helpu ni i ddeall faint o'r rhywogaethau hyn sy'n bresennol, ble maen nhw a pha mor gyflym y maen nhw'n lledaenu.

Y data pwysicaf o bell ffordd y gallwch ei ddarparu yw cofnodion cynnar am rywogaethau estron newydd a rhywogaethau sydd ar ymgartrefu. Trwy gofnodi'r rhywogaethau 'newydd' hyn cyn gynted ag y medrwn ni, byddwch yn ein helpu i'w rhwystro rhag cael troedle.

Dyma restr o rywogaethau newydd: <https://www.nonnative-species.org/non-native-species/species-alerts/>

Mae cofnodion am y rhywogaethau estron sydd o fwyaf o ddiddordeb i ni yma yng Nghymru i'w gweld ym Mhorthol INNS Atlas Cymru'r NBN.

Gallwch lanlwytho cofnodion am rywogaethau estron i [iRecord](#) a [LERCs Cymru](#).

Gallwch lanlwytho cofnodion, arolygon a gweithgareddau rheoli INNS trwy [Wefan ac Ap Mapiwr INNS](#). Gwyliwch y fideos canlynol ar sut i ddefnyddio Mapiwr INNS.

- Sut i gofnodi eich bod wedi gweld rhywogaeth ar Fapiwr INNS
- Sut i gynnal arolwg ar Fapiwr INNS
- Sut i gofnodi'ch bod yn Rheoli Rhywogaeth ar Fapiwr INNS
- Gweld cofnodion ar Fapiwr INNS
- Sut i gadarnhau cofnodion, ffotograffau ac adroddiadau ar Fapiwr INNS

Dysgwch fwy: [Cofnodi](#)

Garddio / Garddwriaeth

Mynd at wraidd y mater / Be Plant Wise

Rydyn ni i gyd am ofalu am yr amgylchedd a'n bywyd gwylt brodorol er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu eu mwynhau. Ewch at **Wraidd y Mater** a dilyn y cynghorion syml hyn:

- **Gwybod beth rydych yn ei dyfu.** Dewiswch y planhigion iawn ar gyfer eich gardd, eich pwll dŵr a'ch nodweddion dŵr. Lawrlwythwch ein canllaw am ddim ar [y planhigion y gallwch eu defnyddio yn eich gardd yn lle rhai estron goresgynnol](#). y planhigion y gallwch eu defnyddio yn eich gardd yn lle rhai estron goresgynnol. Mae canllawiau ar [dirlunio](#) a chreu [pyllau dŵr ac acwaria](#) hefyd.
- **Rhwystywch nhw rhag mynd ar led.** Cadwch eich planhigion yn eich gardd. Peidiwch â'u plannu na gadael iddyn nhw dyfu yn yr amgylchedd.
- **Gofal wrth compostio:** Byddwch yn gyfrifol wrth gael gwared ar blanhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a blodau hadol. Holwch [ba blanhigion goresgynnol ddylech chi ddim eu compostio](#) a sut i gael gwared arnyn nhw'n ddiogel.
 - Mae dympio neu blannu planhigion estron goresgynnol yn y gwylt yn anghyfreithlon.
 - Peidiwch byth â gwaredu planhigion pyllau mewn unrhyw ddyfrffordd.

I gael gwybod mwy, ewch i [Mynd at Wraidd y Mater](#) a [phlanhigion amgen](#).

Mae'r [Cynllun Gweithredu i Arddwriaethwyr ar Lwybrau Cyflwyno](#) yn rhoi cyngor i fudiadau ac unigolion ar sut i leihau'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Defnyddwyr dŵr – gan gynnwys genweirwyr, cychwyr, padlwyr a nofwyr

- Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn creu problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn amhosib eu dadwneud ac amharu ar y gweithgareddau rydych yn eu mwynhau trwy fynd yn sownd mewn propellers, niweidio cychod, cau dyfrffyrrd gan ei gwneud hi'n anodd pysgota neu eu defnyddio i badlo, a chynyddu'r perygl o

lifogydd.

- Helpwch i ddiogelu'r amgylcheddol a'r gweithgareddau rydych yn eu mwynhau trwy gadw planhigion ac anifeiliaid goresgynnol rhag mynd ar eich dillad a'ch offer. Wrth adael y dŵr, cofiwch [Edrych Golchi Sychu](#):
 - Edrychwch ar eich cwch a'ch dillad cyn gadael y dŵr i weld a oes mwd, anifeiliaid neu blanhigion arnyn nhw. Tynnwch unrhyw beth welwch chi a'i adael ar y safle uwchlaw lefel y dŵr uchaf.
 - Golchwch bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y medrwch chi, gan roi sylw arbennig i rannau llaith ac anodd cael atyn nhw. Defnyddiwch ddŵr twym os medrwch chi.
 - Sychwch bopeth am gyhyd y medrwch chi cyn eu defnyddio rywle arall gan fod rhai planhigion ac anifeiliaid goresgynnol yn gallu goroesi am bythefnos a mwy mewn mannau llaith.

Dysgwch fwy:

[Edrych Golchi Sychu](#):

[Rhywogaethau goresgynnol mewn dwr crowy y dylech gadw golwg amdanyn nhw](#)

[Genweirwyr a physgotwyr](#). Helpwch ni i rwystro planhigion ac anifeiliaid goresgynnol rhag lledaenu yn ein dyfroedd!

[Ymgyrch INNS yr Angling Trust](#)

[Cychwyr](#)

[Padlwyr](#)

[Padlfyrdwyr ar eu traed](#)

Mae'r [Cynllun Gweithredu i Gychwyr a Genweirwyr ar Lwybrau Cyflwyn](#) yn rhoi cyngor i fudiadau ac unigolion ar sut i leihau'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Perchnogion anifeiliaid anwes

- Peidiwch byth â rhyddhau anifeiliaid anwes i'r gwylt, a chadwch nhw bob amser fel ei bod hi'n amhosib iddyn nhw ddianc.
- Mae'n greulon ac yn anghyfreithlon rhyddhau rhywogaethau anwes estron i'r gwylt.
- Peidiwch byth â rhyddhau planhigion ac anifeiliaid o byllau dŵr ac acwaria i'r gwylt.
- Mae rhyddhau rhywogaethau estron i mewn i byllau dŵr a dyfrffyrdd yn anghyfreithlon.
- Gall anifeiliaid anwes sydd wedi'u rhyddhau ledaenu clefydau i fywyd gwylt brodorol.

- Mae anifeiliaid anwes estron yn gallu ysglyfaethu rhywogaethau brodorol, cystadlu'n well na nhw a hybrideiddio â nhw.

Mae rhai anifeiliaid anwes estron goresgynol wedi'u rhestru mewn deddfwriaeth fel rhywogaethau o bryder arbennig a rhaid peidio â'u mewnforio, eu cadw, eu bridio, eu cludo, eu gwerthu na'u cyfniewid, eu gadael i fridio na dianc na'u rhyddhau i'r amgylchedd. Ceir gwybodaeth am y rheolau ar gyfer rhywogaethau o bryder arbennig:

[Invasive non-native \(alien\) animal species: rules in England and Wales - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/invasive-non-native-alien-animal-species-rules-in-england-and-wales)

[Invasive non-native \(alien\) plant species: rules in England and Wales - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/invasive-non-native-alien-plant-species-rules-in-england-and-wales)

Mae Cymdeithas y Fasnach Ddyfrol Addurniadol (OATA) a Chymdeithas y Fasnach Ymlusgiad ac Anifeiliaid Anwes Egsotig (REPTA) wedi datblygu Cod Ymarfer Anifeiliaid Anwes i helpu perchnogion anifeiliaid anwes i ddeall eu cyfrifoldebau.

Gall perchnogion pysgod gael rhagor o wybodaeth yn: [gwefan OATA](#).

Mae [Cynlluniau Gweithredu ar Lwybrau Cyflwyno](#) yn rhoi cyngor i fudiadau ac unigolion ar sut i leihau'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynol. Mae Cynllun Gweithredu am Anifeiliaid Anwes Egsotig wrthi'n cael ei baratoi.

Y diwydiant adeiladu a'r sector datblygu

- Rhowch amser i ddeall risgiau'ch safle a'r gweithgareddau rydych am eu cynnal arno cyn ichi fynd ar y safle. Bydd paratoi cynllun bioddiogelwch/asesiad risg yn eich helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac i beidio â thorri'r gyfraith. Mae trefn bioddiogelwch dda wastad yn syniad da, hyd yn oes os nad yw'n amlwg bod yna rywogaethau estron goresgynol.
- Cynlluniwch ymweliadau fel mai'r ymweliad mwyaf peryglus yw'r un olaf o'r dydd.
- Cyrhaeddwch y safle gydag esgidiau, cerbydau ac offer glân.
- Sicrhewch fod esgidiau a'r offer yn lân (h.y. nad ydych yn gallu gweld pridd nac olion) cyn ichi adael y safle.
- Sicrhewch fod y cerbyd yn cael ei gadw'n lân – yn benodol, tynnwch unrhyw fwd sydd wedi crонni oddi arno cyn gadael y safle.
- Defnyddiwch y cyfleusterau sydd wedi'u darparu ar y safle i lanhau esgidiau/cyfarpar.
- Ceisiwch leihau'r mynediad cymaint â phosibl. Os yw'n ymarferol gwneud hynny, peidiwch â mynd â cherbydau i'r safle, cadwch ar lwybrau sefydledig, a pharciwch

gerbydau ar dir caled.

- Ceisiwch osgoi ardaloedd lle y mae da byw ac ardaloedd y gwyddys bod yna risgau (e.e. INNS, clefydau, plâu).
- Peidiwch â mynd â deunydd planhigion estron goresgynnol (e.e. hadau, rhisomau ac ati) a phridd halogedig o'r safle oni bai'ch bod yn defnyddio cludwr gwastraff trwyddedig i [safle gwastraff sydd â'r drwydded briodol](#).
- Os ydych yn cael gwared ar ddeunydd planhigion estron goresgynnol a phridd halogedig ar y safle, rhaid bod gennych drwydded gwastraff neu esemtiaid (gweler Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o wybodaeth - [Edrychwr a oes angen ichi ddweud wrthym am eich gweithgareddau gwastraff](#)).

Perchenogion tir a chyrff rheoli tir e,e, gwarchodfeydd natur

- Os ydych yn ymweld â safle lle y gwyddys fod rhywogaeth estron oresgynnol yn bresennol, rhowch fesurau bioddiogelwch addas ar waith i'w rwystro rhag lledaenu.
- Mae bioddiogelwch yn golygu cymryd camau i wneud yn siŵr fod arferion hylendid da ar waith i leihau a lliniaru'r perygl o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Mae trefniadau bioddiogelwch da'n hanfodol bob adeg, hyd yn oed os nad oes rhywogaethau estron goresgynnol yn amlwg.
- Cyrhaeddwrch y safle gydag esgidiau, cerbydau ac offer glân.
- Sicrhewch fod esgidiau a'r offer yn lân (h.y. nad ydych yn gallu gweld pridd nac olion) cyn ichi adael y safle.
- Sicrhewch fod y cerbyd yn cael ei gadw'n lân – yn benodol, tynnwch unrhyw fwd sydd wedi crонni oddi arno cyn gadael y safle.
- Defnyddiwch y cyfleusterau sydd wedi'u darparu ar y safle i lanhau esgidiau/cyfarpar.
- Ceisiwch leihau'r mynediad cymaint â phosibl. Os yw'n ymarferol gwneud hynny, peidiwch â mynd â cherbydau i'r safle, cadwch ar lwybrau sefydledig, a pharciwch gerbydau ar dir caled.
- Ceisiwch osgoi ardaloedd lle y mae da byw ac ardaloedd y gwyddys bod yna risgau (e.e. INNS, clefydau, plâu).
- Peidiwch â mynd â deunydd planhigion estron goresgynnol (e.e. hadau, rhisomau ac ati) a phridd halogedig o'r safle oni bai'ch bod yn defnyddio cludwr gwastraff trwyddedig i [safle gwastraff sydd â'r drwydded briodol](#).
- Os ydych yn cael gwared ar ddeunydd planhigion estron goresgynnol a phridd halogedig ar y safle, rhaid bod gennych drwydded gwastraff neu esemtiaid

- Dylai posteri ac arwyddion gael eu harddangos lle bo'n bosibl i wneud pobl yn ymwybodol o'r risg ac i roi cyngor ar sut i atal lledaeniad.

Defnyddwyr dŵr y môr

- Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn hanfodol i gadwraeth bioamrywiaeth forol. Maen nhw'n sicrhau bod ein hecosystemau morol yn parhau i fod yn iach, gyda digon o gysylltiadau ac yn wydn i newid.
- Mae'n drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 i ryddhau unrhyw anifail i'r gwylt neu ei adael i ddianc os nad Prydain Fawr yw ei gartref arferol neu os yw wedi'i restru yn Atodlen 9 o Ddeddf 1981 neu Ran 1, Atodlen 2 o Orchymyn 2019.
- Mae INNS y môr yn gallu cystadlu â rhywogaethau brodorol, eu mygu ac ysglyfaethu arnynt, gan effeithio ar eu nifer a'u hamrywiaeth a gallant ddifrodi neu newid cynefinoedd morol ac effeithio ar wytnwch ecosystemau. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn gallu lledaenu clefydau. Gall crebachu ar fioamrywiaeth neu ei niweidio effeithio ar ei gallu i weithio a'i gallu i addasu i newid.
- Gall helpu i leihau nifer y rhywogaethau estron goresgynnol helpu i gynnal a chynyddu amrywiaeth a gwydnwch ecosystemau morol. Mae gwaith [bioddiogelwch](#) da yn hanfodol rhag cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol i amgylchedd y môr.
- Y llwybrau allweddol ar gyfer cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol morol yw trafnidiaeth forol (masnachol a hamdden), dyframaethu a datblygiadau seilwaith.
- Nid yw bob amser yn bosibl gael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol yn yr amgylchedd morol a gall fod yn ddrud yn aml. Oherwydd hyn, mae'n bwysig ein bod yn osgoi eu cyflwyno a'u lledaenu, lle bo'n bosibl, drwy hyrwyddo ymgyrchoedd fel [Edrych Golchi Sychu](#) ac annog pobl i ddefnyddio cynlluniau bioddiogelwch pan fo angen ac i ddilyn y cyngor ar [arferion gorau](#).
- Mae [cofnodi](#) rhywogaethau estron goresgynnol morol yn ein helpu i ddeall sawl un o'r rhywogaethau hyn sy'n bresennol, ble maen nhw ac i ba raddau y maen nhw'n lledaenu.
- Mae [Polisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru](#) o ran INNS (polisi AMG-03 tudalen 54) yn helpu i roi gwybod i ddatblygwyr a phenderfynwyr beth y dylent ei wneud wrth ystyried rhywogaethau estron goresgynnol yn yr amgylchedd morol.

- Mae [Rhestr Monitro a Chadw Gwyliadwriaeth ar gyfer Rhywogaethau Goresgynnol Morol Blaenoriaethol](#) wedi'i datblygu i Gymru i ganolbwytio ar rywogaethau sy'n fygythiad i fioamrywiaeth frodorol.

Mae [Cynlluniau Gweithredu ar Lwybrau Cyflwyno](#) yn rhoi cyngor i fudiadau ac unigolion ar sut i leihau'r risg o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Cynllun Gweithredu am Anifeiliaid Anwes Egsotig wrthi'n cael ei baratoi.

5. Dolenni defnyddiol

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr

Mae Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (NNSS) yn gyfrifol am helpu i gyd-drefnu sut i ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol ym Mhrydain Fawr. Mae'r NNSN yn atebol i Fwrdd y Rhaglen sy'n cynrychioli'r llywodraethau ac asiantaethau perthnasol yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr yw'r fframwaith strategol ar gyfer trefnu'n well waith adrannau'r llywodraeth, eu cyrff cysylltiedig a rhanddeiliaid allweddol. [GB INNS Strategy 2023-2030](#)

Mae Grŵp Gweithredu Lleol yn canolbwytio ar leihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â rhywogaeth estron goresgynnol mewn ardal benodol. [Local Action Groups \(LAGs\)](#)

Cynhelir yr Wythnos Rhywogaethau Estron unwaith y flwyddyn, gyda digwyddiadau i ddysgu pobl sut i rwystro rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu ac am eu heffeithiau niweidiol. [Invasive Species Week](#)

Ar wefan GBNSS, cynigir adnoddau hyfforddi ac addysgu am rywogaethau estron a bioddiogelwch, gan gynnwys e-ddysgu, gwybodaeth ar gyfer sectorau penodol ac enghreifftiau o arfer da. [Training » NNS](#)

Mae cyfres o daflenni adnabod wedi'u datblygu i'ch helpu i adnabod rhywogaethau estron. [ID sheets » NNS](#)

Trwy gofnodi cyn gynted ag y medrwch unrhyw rywogaethau newydd rydych yn eu gweld, byddwch yn helpu i rwystro rhywogaethau estron goresgynnol newydd rhag ymgartrefu. [Species alerts » NNS](#)

Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Sefydlwyd y grŵp i helpu i nodi'r blaenoriaethau o ran rhywogaethau estron goresgynnol ac i ddatrys problemau, yn ogystal â bod yn ffynhonnell o arbenigedd ar rywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn cynnal rhestr o Rywogaethau Blaenoriaethol ar gyfer Gweithredu yng Nghymru.

Ymgyrch ‘Ymledwyr Ecosystem’

Cafodd yr ymgyrch ‘Ymledwyr Ecosystem’ ei datblygu yn 2022 (a'i datblygu ymhellach yn 2023) i ennyn diddordeb a chael mwy o bobl i gymryd rhan. Amcan yr ymgyrch yw addysgu pobl am rywogaethau estron goresgynnol ac am eu heffeithiau yng Nghymru, hynny er mwyn eu hannog i gymryd rhan. Y gynulleidfa darged yw garddwyr a defnyddwyr dŵr hamdden. I weld y pecyn adnoddau, cliciwch [yma](#).

Deddfwriaeth

Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE

Daeth [Rheoliad yr UE](#) (1143/2014) ar rywogaethau estron i rym ar 1 Ionawr 2015.

Mae gofynion y rheoliad wedi'u cadw mewn cyfraith ddomestig a'u hategu gan Orchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Chaniatáu) 2019.

Rhywogaethau o bryder arbennig

Mae [Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol \(Gorfodi a Chaniatáu\) 2019](#) yn rhoi ar waith rhai o ofynion y Rheoliad a ddargedwir trwy greu trefniadau gorfodi, trwyddedu a chaniatáu mewn cysylltiad â rhywogaethau o bryder arbennig.

Rhywogaeth estron yw rhywogaeth o bryder arbennig, y mae'n rhaid, oherwydd ei heffaith niweidiol ar draws Prydain Fawr, wrth weithredu ar y cyd i ddelio â hi yn unol ag Erthygl 4(3) o Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE (1143/2014) a ddargedwir.

Mae'r ddeddfwriaeth a ddargedwir yn atal rhywogaethau o bryder arbennig rhag cael eu mewnforio, eu cadw, eu cludo, eu gwerthu, eu cyfnewid, eu tyfu, eu magu, eu bridio, eu caniatáu i ddianc na'u rhyddhau i'r amgylchedd (ac eithrio o dan drwydded).

Dysgwch fwy:

[Species of Special Concern](#)

[Invasive non-native \(alien\) animal species: rules in England and Wales](#)

[Invasive non-native \(alien\) plant species: rules in England and Wales](#)

Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981

[Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981](#) yw'r brif ddeddfwriaeth o hyd at gyfer rheoli rhywogaethau estron nad ydynt yn rhywogaethau o bryder arbennig. Mae Adran 14(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd rhyddhau i'r gwylt unrhyw anifail nad yw fel arfer yn byw ym Mhrydain Fawr neu sydd wedi'i restru yn Atodlen 9 y Ddeddf, neu ganiatáu i anifail o'r fath ddianc i'r gwylt. Mae'n drosedd hefyd plannu unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodlen 9, neu ei beri i dyfu yn y gwylt.

Cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau

Mae Cytundebau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau, neu'r Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau fe y'u gelwir, yn sicrhau bod perchenogion yn gweithredu neu'n caniatáu CNC neu Weinidogion Cymru i fynd ar dir i wneud gwaith i rwystro rhai rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau brodorol a oedd gynt yn byw yma rhag ymgartrefu a lledaenu.

Mae'r cod ymarfer hwn yn esbonio sut y dylai Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gymhwys o'r darpariaethau yngylch cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a geir yn Nedd Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r cod yn berthnasol i Gymru yn unig.

[Cod ymarfer ar gyfer darpariaethau rheoli rhywogaethau | LLYW.CYMRU](#)

Mae'r cod wrthi'n cael ei ddiweddar (2024).

Cacynen Asia

Mae Cacynen Asia yn heliwr effeithiol ar bryfed, gan gynnwys gwenyn a rhywogaethau llesol eraill.

Mae'n bwysig rhoi gwybod cyn gynted â phosibl i'r awdurdodau pan welwch y gacynen hon. Mae angen bod yn arbennig o wyliadwrus yn ne Lloegr a de Cymru ac o gwmpas ein porthladdoedd. Mae Cacynen Asia yn brysur rhwng Ebrill a Thachwedd ac ar ei phrysuraf yn Awst/Medi. Welwch chi ddim mohoni yn y gaeaf.

Os byddwch yn ei gweld, cysylltwch ar unwaith, gyda ffoto, trwy'r dolenni isod:

- [Ap Asian Hornet Watch ar gyfer iPhone](#)
- [Ap Asian Hornet Watch ar gyfer android](#)

Mwy o wybodaeth am [Gacynen Asia](#)

Clymog Japan. Jac y Neidiwr a'r Efwr Enfawr

Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y canlynol:

[Clymog Japan: cyngor ar gyfer grwpiau cymunedol a qwirfoddol](#)

[Clymog Japan: gwybodaeth i'r cyhoedd am reoli planhigion goresgynnol](#)

[Jac y Neidiwr: gwybodaeth i'r cyhoedd am reoli planhigion goresgynnol](#)

[Efwr enfawr: gwybodaeth i'r cyhoedd am reoli planhigion goresgynnol](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru:

[Clymog Japan: Beth sydd angen ei wybod](#)

Porth Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) yng Nghymru

Mae Porth y Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar [Atlas Cymru y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol](#) yn cefnogi gweithgareddau [Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#) trwy ddarparu un adnodd i weld a chwilio cofnodion a rhestrau am dros 300 o rywogaethau estron goresgynnol sydd o ddiddordeb i Gymru sydd ar Atlas NBN: : [NBN Atlas Wales INNS Portal](#). Cewch ddisgrifiad cyffredinol ohono yn y [Canllaw i Ddefnyddwyr Porth INNS](#).

Plâu a chlefydau

Mae nifer o rywogaethau estron goresgynnol sy'n cael eu nodi fel plâu neu glefydau hysbysadwy yn y DU. Mae mecanweithiau deddfwriaethol eraill yn bodoli i ymdrin â'r rhain.

Iechyd Anifeiliaid

Os ydych yn credu bod clefyd anifail hysbysadwy, rhaid rhoi gwybod ar unwaith drwy ffonio Llinell Gymorth Gwasanaethau Gwledig DEFRA ar 03000 200 301. Bydd peidio â gwneud hyn yn drosedd. Am ragor o wybodaeth, gweler: [www.gov.uk/government/collections/notifiable-diseases-in-animals](#).

Plâu a chlefydau iechyd dyfrol (pysgod a physgod cregyn)

Os ydych yn credu bod achos o glefyd pysgod a physgod cregyn hysbysadwy ar ffermydd neu yn y gwyllt, rhaid rhoi gwybod i Arolygiaeth Iechyd Pysgod Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) drwy e-bostio fhi@cefas.co.uk neu ffonio 01305 206700. Bydd peidio â gwneud hyn yn drosedd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am glefydau difrifol pysgod a physgod cregyn (molysgiad dwygragennog a chramenogion) ar wefan www.GOV.UK (sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr).

Iechyd gwenyn

Mae nifer o blâu a chlefydau hysbysadwy yn y DU a allai effeithio ar wenyn. Rhaid i wenynwyr ddweud wrth yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) os ydynt yn amau eu bod yn bresennol drwy ffonio llinell gymorth yr Uned Wenyn Genedlaethol ar 0300 303 0094 neu eich archwilydd gwenyn lleol ar unwaith.

Bydd peidio â gwneud hyn yn drosedd (gweler <https://www.gov.uk/guidance/bee-health>) Ce i'r rhagor o wybodaeth gan yr Uned Wenyn Genedlaethol: Tudalen we BeeBase a [Cymdeithas Gwenynwyr Cymru](#).

Iechyd planhigion a choed

Os ydych yn credu bod clefyd neu bla ar goeden neu blanhigyn, rhowch wybod i ni.

Rhowch cymaint o wybodaeth ag y medrwch, gan gynnwys:

- y lleoliad
- beth ydych wedi'i weld
- y rhywogaeth yr effeithir arni
- enw cyswllt a rhif ffôn

Rhowch wybod am arwyddion o blâu a chlefydau ar goed ar [Tree Alert Forest Research.](#)

Rhowch wybod am arwyddion o blâu a chlefydau ar blanhigion i Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion trwy e-bostio planhealth.info@apha.gov.uk.

Gall ymwelwyr â choetir chwarae rhan bwysig yn y frwydr i rwystro plâu a chlefydau rhag lledaenu. Gallwn ddod ar draws haint heb yn wybod i ni wrth grwydro coetir a gallwn ei ledaenu yn y mwd a'r dail sy'n casglu ar ein holwynion a'n hesgidiau. Gallem fynd â'r haint gyda ni i'r lle nesaf y byddwn yn ymweld ag e felly mae'n bwysig ein bod yn glanhau ein hesgidiau a'n beiciau cyn mynd i'r lle nesaf.

Helpwch ni i osgoi lledaenu clefydau a phlâu trwy dasgau glanhau syml. Byddan nhw'n dod yn bethau naturiol i'w gwneud gobeithio fel eich bod yn cyrraedd pen pob llwybr cerdded neu feicio ag offer glân. Cadwch eich llygaid ar agor am arwyddion o blâu a chlefydau a'u cofnodi ar [TreeAlert](#).

[Poster Cadwch yn Lân - Cymraeg](#)
[Poster Keep it Clean - Saesneg](#)

6. Cyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol

Partneriaid/cynulleidfa oedd allweddol o'r pedwar prif grŵp o randdeiliaid

Grŵp (o'r rhestr y cytunwyd arni)	Partneriaid allweddol	Aelodau	Cynulleidfa oedd allweddol
Garddwyr/ perchenogion pyllau dŵr	Cymdeithas Masnachwyr Garddwriaethol, Cymdeithas y Fasnach Ddyfrol ac Addurniadol, Cymdeithas Diwydiannau Tirwedd Prydain	Manwerthwyr garddwriaethol a dyfrol (siopau ac ar- lein), cwmnïau tirweddu	Garddwyr, garddwyr tirweddu, perchnogion pyllau, garddwriaethwyr
Defnyddwyr dŵr hamdden (dŵr croyw)	Yr Ymddiriedolaeth Genweirio, Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, The Green Blue, British Canoeing, British Rowing, Cwmnïau dŵr	Clybiau a marinâu	Genweirwyr, canŵ- wyr, ceufadwyr, cychwyr, rhwyfwyr, triathletwyr, nofwyr dŵr agored, plymwyr, raswyr cychod draig
Perchnogion anifeiliaid a physgod anwes egdotig	Ffederasiwn Diwydiant Anifeiliaid Anwes, REPTA, Cymdeithas Sŵau ac Acwaria Prydain ac Iwerddon, Cymdeithas y Fasnach Ddyfrol Addurniadol, awdurdodau trwyddedu siopau anifeiliaid anwes, yr RSPCA, Cymdeithas Milfeddygon Prydain	Manwerthwyr pysgod ac anifeiliaid egdotig, sŵau, parciau natur, acwaria, milfeddygon, archwiliwyr llesiant anifeiliaid	Perchnogion anifeiliaid anwes egdotig, perchnogion pysgod, canolfannau achub anifeiliaid
Perchenogion tir	Cymdeithasau tirfeddianwyr, Undebau Ffermwyr, Cyswilt Bywyd Gwylt, Cwmnïau Dŵr, Seilwaith, BASC	Tirfeddianwyr, ffermwyr, cyrff cyhoeddus, cyrff anlywodraethol Canolfannau addysg awyr agored	Aelodau cyrff anlywodraethol cadwraeth, Staff maes, rheolwyr tir, cyhoedd â buddiannau, gweithwyr safle, defnyddwyr dŵr

Defnyddwyr dŵr morol	Prosiet Marine Pathways, Yr Ymddiriedolaeth Genweirio, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, The Green Blue, British Marine, British Canoeing, British Rowing	Clybiau a marinâu	Genweirwyr, canŵ-wyr, ceufadwyr, cychwyr, rhwyfwyr, triathletwyr, nofwr dŵr agored, plymwyr, raswyr cychod draig
----------------------	--	-------------------	--

7. Adnoddau

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u datblygu a'u rhannu ar y cyd â rhanddeiliaid i helpu ymgyrchoedd INNS GB.

Mae llawer o'r deunyddiau hyn ar gael ichi ar wefan INNS GB:

Edrych Golchi Sychu: [Adnoddau » NNSS \(nonnativespecies.org\)](#)

Mynd at Wraidd y Mater (Be Plant Wise): [Adnoddau a Deunyddiau » NNSS \(nonnativespecies.org\)](#)

Mae copïau caled ar gael hefyd, am ddim, o bosteri, taflenni, arwyddion a sticeri, i'ch helpu gyda gwaith addysgu a chyhoeddusrwydd. Cysylltwch ag NNSS GB yn nnss@apha.gov.uk.

Dylai postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol gynnwys yr hashnod #GBINNS er mwyn ei gwneud yn haws ei rannu gan eraill. Lle bo'n bosibl, dylai postiadau sy'n cyfeirio at yr ymgyrch *Edrych, Golchi, Sychu* dagio @CheckCleanDryGB neu gynnwys #CheckCleanDry.

Mae gan yr ymgyrch [Ymledwyr Ecosystem](#) amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys deunydd ar gyfer teuluoedd. Cliciwch [yma](#) i gael pecyn adnoddau.

Deunydd Edrych, Golchi, Sychu (Check Clean Dry)

Cyffredinol

Posteri ac Arwyddion

- [Edrych Golchi Sychu - Cymraeg a Saesneg](#)
- [Clubs and managers of waterbodies](#)
- [Washdown station](#)
- [Clubs and managers of waterbodies](#)
- [Washdown station](#)

Taflenni

- [Taflen blygu adnabod](#)
- [Taflenni adnabod eraill](#)
- [Travelling abroad?](#)
- [Taflen Ymledwyr Ecosystem - Cymraeg a Saesneg](#)
- [Fideo Ymledwyr Ecosystem ar ddyfroedd hamdden / Fideo Ymledwyr Ecosystem ar ddyfroedd hamdden \(Saesneg\)](#)

Genweirio

Posteri ac arwyddion

- [Genweirio](#) | Angling (Saesneg)
- [Game angling](#)
- [Pysgota ar y Môr / Marine angling \(Saesneg\)](#)
- [Coarse angling washdown station](#)

Taflenni

- [Coarse angling \(Saesneg\)](#)
- [Genweirio](#)
- [Pysgota ar y Môr / Marine angling \(Saesneg\)](#)

Cychwyr

Posteri ac arwyddion

- [Cychwyr / Boating \(Saesneg\)](#)
- [Cychod ar y Môr / Marine boating \(Saesneg\)](#)
- [Cychod ar Gamlesi /Boating on canals \(Saesneg\)](#)
- [Boating washdown station](#)

Taflenni

- [Cychwyr / Boating \(Saesneg\)](#)
- [Cychod ar y Môr | Marine boating \(Saesneg\)](#)
- [Cychod ar Gamlesi | Boating on canals \(Saesneg\)](#)

Padlo a Padlfyrddio ar eich Traed

Posteri ac arwyddion

- [Padlo](#) | [Paddling \(Saesneg\)](#)
- [Stand Up Paddleboarding \(Saesneg\)](#)
- [Paddling washdown station](#)

Taflenni

- [Padlo](#) | [Paddling \(Saesneg\)](#)
- [Stand Up Paddleboarding \(Saesneg\)](#)
- [Paddling abroad?](#)

Bioddiogelwch ar y ffiniau

- [Poster pysgota dramor](#) | [Angling abroad poster \(Saesneg\)](#)
- [Poster cychwyr dramor](#) | [Boating abroad poster \(Saesneg\)](#)
- [Poster padlo dramor](#) | [Paddling abroad poster \(Saesneg\)](#)

Deunydd Mynd at Wraidd y Mater (Be Plant Wise)

Taflenni

- [Taflen planhigion gardd](#) | [Garden plants leaflet \(Saesneg\)](#)
- [Taflen planhigion dwr](#) | [Aquatic plants leaflet \(Saesneg\)](#)
- [Taflen Ymledwyr Ecosystem i arddwyr](#) (Cymraeg a Saesneg)

[Fideo Ymledwyr Ecosystem i arddwyr](#) | [Ecosystem Invaders video for gardeners \(Saesneg\)](#)

Pa blanhigion i'w defnyddio yn lle planhigion estron goresgynol:

- [Guide for gardeners \(Saesneg\)](#)
- [Guide for landscapers \(Saesneg\)](#)
- [Guide for pond or aquarium owners \(Saesneg\)](#)

Posteri

- [Poster planhigion qardd](#) | [Garden plants poster \(Saesneg\)](#)
- [Poster planhigion dwr](#) | [Aquatic plants poster \(Saesneg\)](#)

Deunyddiau eraill

- [Taflen wybodaeth i fanwerthwyr](#) | [Information sheet for retailers \(Saesneg\)](#)
- [Pop up banner \(Saesneg\)](#)
- Croeso i chi ddefnyddio logos Mynd at Wraidd y Mater/Be Plant Wise ar eich deunydd eich hun ond rhaid cael caniatâd GBNSS yn gyntaf. Cysylltwch â nnss@apha.gov.uk
- [Postiadau drafft ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol](#) a graffegau 'landscape' a sgwâr ar eu cyfer
- [Plant Alert](#) - porthol y gall pobl gyffredin ei ddefnyddio i roi gwybod am blanhigion addurnol yn eu gerddi a allai fod yn oresgynol.

Enghreifftiau o ddeunyddiau Edrych, Golchi, Sychu

STOP THE SPREAD

Invasive plants and animals can carry diseases that kill fish, and block waterways and banks interfering with fishing. They can be small and hard to spot so are easily spread on damp equipment and clothing.

Protect the environment and fishing you enjoy by keeping your kit free of invasive plants and animals.

Remember to check these places

CHECK

CLEAN

DRY

Check your gear after leaving the water for mud, aquatic animals or plant material. Remove anything you find and leave it at the site.

Clean everything thoroughly as soon as you can, paying attention to nets, waders, and areas that are damp and hard to access. Use hot water if possible.

Dry everything for as long as possible before using elsewhere as some invasive plants and animals can survive for two weeks in damp conditions.

Watch out for:

Find out more about invasive plants and animals and how you can help to stop the spread at: nonnativespecies.org/checkcleandry

Logos: Department for Environment, Food & Rural Affairs, Natural England, Natural Scotland, NNSS Environment, Angling UK.

**ATAL YR YMLEDIAD
STOP THE SPREAD**

Mae planhigion ac anfelliad ymosodol yn achosi nihed i fywyd gwylt a'r amgylchedd, ac yn blocio dyfrifryd a all wneud padio'n anodd. Galant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ledioenu ar offer a dilid tamp.

Cofiwch ddiogelu'r amgylchedd a'r gweithgareddau a fywymewch drwy gadwch offer yn rhwyd mag planhigion ac anfelliad ymosodol.

Cofiwch edrych yn ofalus ar y manau hyn

Remember to check these places

EDRYCH CHECK

GOLCHI CLEAN

SYCHU DRY

Edrych in each cockpit, with boats, wading equipment and clothing after leaving the water for mud, aquatic animals or plant material. Remove anything you find and leave it at the site.

Golchi - drain water from your boat, kayak, canoe, paddle, waders and clothing after leaving the water for mud, aquatic animals or plant material. Remove anything you find and leave it at the site.

Sychu - drain water from every part of your boat and dry with a sponge or towel before leaving the water for mud, aquatic animals or plant material. Remove anything you find and leave it at the site.

Cadwch lyged am:
Watch out for:

Find out more about invasive plants and animals and how you can help to stop the spread at: nonnativespecies.org/checkcleandry

Logos: Department for Environment, Food & Rural Affairs, Natural England, Natural Scotland, NNSS Environment, British Canoeing, SCAI, Canoe Wales/Cano Cymru, Angling UK.

Enghreifftiau o ddeunyddiau Mynd at Wraidd y Mater



If your plants escape beyond your garden border they can become invasive, harming our wildlife, environment, and the economy

BE PLANT WISE

Once established, invasive plants are costly to control and the damage they cause can be irreversible. You can help to protect the environment by following our three simple tips:

- KNOW WHAT YOU GROW** Choose the right plants for your garden, pond, aquarium and water features
- STOP THE SPREAD** Keep your plants in your garden, don't plant them, or allow them to grow in the wild
- COMPOST WITH CARE** Dispose of your unwanted plants, roots, weeds, seeds, and seed heads responsibly

Find out more at nonnativespecies.org/beplantwise

Department for Environment, Food & Rural Affairs | Scottish Government | Royal Horticultural Society | HTA



Os yw'ch planhigion yn dianc y tu hwnt i'ch pwll neu'ch acwariwm, yna gallan nhw fynd yn blanhigion goresgynol, gan niweidio ein bywyd gwylt, ein hamgylchedd a'n heonomi

MYND AT WRAIDD Y MATER

Unwaith y byddan nhw wedi sefydlu, mae planhigion goresgynol yn gostus i'w rheoli a gall y difrod y maen nhw'n ei achos i fod yn rhywbeth na ellir ei ddad-wneud. Gallwch chi helpu i ddiogelu ein dyfrfryd trwy ddilyn ein tri chyngor sym:

- NABOD EICH PLANHIGION** Dewiswch y planhigion cywir ar gyfer eich pwll, acwariwm a nodweddion dŵr eraill
- STOPIO RHAG YN ADEU** Cadwch eich planhigion yn eich pwll neu eich acwariwm a phedivach a phlannu unrhyw beth mewn tir gwylt
- COMPOSTIO AGORAU** Gwaredwch eich planhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a dŵr sydd wedi'u taflu o'r neilltu, mewn florod gyfrifol

Dysgwch fwy yi
nonnativespecies.org/beplantwise

Department for Environment, Food & Rural Affairs | Scottish Government | Royal Horticultural Society | HTA | Cymdeithas Naturiol Cymru | National Botanic Garden of Wales